Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

**Bil Hawliau Cyflogaeth**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Bil Hawliau Cyflogaeth a chydsyniad deddfwriaethol.

Ar ôl adolygu cymal 26 o'r Bil hwn sy'n mewnosod adran 78A newydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, nodwn y bydd Comisiwn y Senedd yn cael ei ddal o fewn cwmpas yr adran newydd hon. Bydd yr ardan 78A newydd, os y caiff ei deddfu, yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol baratoi a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" yn ymdrin â materion cydraddoldeb rhywedd.

Rydym yn cadarnhau na ymgynghorwyd â ni ac na chawsom unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon. Oherwydd natur gyfyngedig y wybodaeth sydd ar gael, nid ydym yn glir beth fyddai unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn eu cynnwys. Hoffem, felly, weld y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod y Comisiwn yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai statudol er mwyn caniatáu cyfle i ni wneud sylwadau ar unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw reoliadau dilynol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Rhowch wybod i ni os gallwn fod o unrhyw gymorth pellach i'r pwyllgor.

Cofion gorau,

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English